# DEDDF TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU) 2017

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

**Rhan 8 – Dehongli a Darpariaethau Terfynol**

***Atodlen 2 – Trafodiadau cyn-gwblhau***

**Rhan 4 - Rheol isafswm y gydnabyddiaeth**

### Rheol isafswm y gydnabyddiaeth

144. Mae paragraff 15 yn darparu ar gyfer rheol isafswm y gydnabyddiaeth ar gyfer trafodiadau cyn-gwblhau pan geir cysylltiad perthnasol rhwng y partïon. Mae ystyr "cysylltiad perthnasol rhwng y partïon" yn cynnwys pan geir cyfres o drafodiadau cyn-gwblhau, ac fe'i darperir yn is-baragraff (3). Yn y Rhan hon o'r Atodlen, mae cyfeiriadau at "y trafodiad a weithredwyd" i'w darllen fel cyfeiriadau at drafodiadau cyn-gwblhau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 7(1) neu 13(1).

145. Pan fo cysylltiad perthnasol rhwng y partïon mewn trafodiad cyn-gwblhau, mae is-baragraff (2) yn darparu mai swm y gydnabyddiaeth ar gyfer y caffaeliad terfynol yw'r uchaf o'r canlynol:

- y gydnabyddiaeth a fyddai fel arfer oni bai am yr is-baragraff hwn;
- yr isafswm cyntaf (paragraff 16); neu
- yr ail isafswm (paragraff 17).

146. Mae is-baragraff (4) yn darparu bod cyfeiriadau at y "contract gwreiddiol" yn y Rhan hon o'r Atodlen, pan fo'r trafodiad a weithredwyd yn rhan o gyfres o gontractau sy'n ymwneud â'r un testun, i'w darllen fel cyfeiriad at y contract cyntaf yn y gyfres honno. Mae cyfeiriadau at y "prynwr gwreiddiol" i'w darllen yn unol â hynny hefyd.

### Yr isafswm cyntaf

147. Mae paragraff 16 yn rhoi ystyr yr isafswm cyntaf ac yn nodi sut y'i cyfrifir at ddibenion paragraff 15.

148. Yr "isafswm cyntaf" (gweler paragraff 15(2)(b)) mewn cysylltiad â buddiant trethadwy a gaffaelir o dan drafodiad tir y cyfeirir ato ym mharagraffau 7(4) neu 13(2) yw:

- swm y gydnabyddiaeth ar gyfer testun y contract gwreiddiol (os caffaelir holl destun y contract hwnnw); neu

- swm y gydnabyddiaeth ar sail dosraniad teg a rhesymol (os caffaelir rhan o destun y contract gwreiddiol).

149. Mae is-baragraff (3) yn nodi amodau A – C sydd, os cânt eu bodloni, yn darparu mai'r isafswm cyntaf yw cyfanswm unrhyw gydnabyddiaeth y mae'n ofynnol i'r trosglwyddwr (y T cyntaf – gweler is-baragraff (4)(a)) ei rhoi o dan delerau'r contract am gaffaeliad y T cyntaf (gweler is-baragraff (4)(b)) o destun y contract hwnnw ac, os nad yw'n cael ei chynnwys, unrhyw gydnabyddiaeth y mae'n ofynnol i'r T cyntaf ei rhoi o dan unrhyw drafodiad cyn-gwblhau pan fo'r T cyntaf yn drosglwyddai.

150. At ddibenion paragraff 16, rhoddir ystyr "y T cyntaf" yn is-baragraff (4)(a), ac mae (4)(b) yn darparu mai "y trosglwyddiad i'r T cyntaf" yw'r trafodiad cyn-gwblhau pan fo'r T cyntaf yn drosglwyddai, neu'r contract gwreiddiol os T (gweler Amod B yn is-baragraff (3)) yw'r prynwr gwreiddiol.

## Yr ail isafswm

151. Mae paragraff 17 yn nodi sut y cyfrifir yr ail isafwm at ddibenion paragraff 15. Yr ail isafswm yw cyfanswm y gydnabyddiaeth a roddir gan y partïon perthnasol (gweler is-baragraff (3)).

152. Nodir y fformiwla ar gyfer pennu swm net y gydnabyddiaeth a roddir gan barti perthnasol yn is-baragraff (2). Mae hwn a darpariaethau is-baragraff (4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifiad gael ei wneud ar gyfer pob parti perthnasol.

153. Y partïon perthnasol (yn ddarostyngedig i is-baragraff (4)) at ddibenion cyfrifo'r ail isafswm yw'r prynwr gwreiddiol a'r trosglwyddai. Pan geir trafodiadau cyn-gwblhau olynol, mae hyn yn cynnwys yr holl drosglwyddeion yn y gadwyn o drafodiadau.

154. Mae is-baragraff (4) yn nodi'r partïon perthnasol mewn trafodiad cyn-gwblhau ("trafodiad a weithredwyd") sy'n rhan o gadwyn o drafodiadau cyn-gwblhau mewn cysylltiad â chontract gwreiddiol (gweler paragraff 15(4)). Diffinnir "trafodiad blaenorol" fel trafodiad cyn-gwblhau sy'n rhagflaenu'r trafodiad a weithredwyd mewn cadwyn.

155. Mae is-baragraff (5) yn darparu bod unrhyw symiau a roddir gan bartïon cysylltiedig yn cael eu trin fel pe baent wedi eu rhoi gan y parti perthnasol at ddibenion is-baragraff (2).

156. Mae is-baragraff (6) yn darparu bod symiau a roddir mewn perthynas â thrafodiad a weithredwyd, pan fo'r trafodiad hwnnw yn ymwneud â rhan o destun y contract gwreiddiol, i'w haddasu a'u pennu ar sail deg a rhesymol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw drafodiadau sy'n ymwneud â rhan o destun y contract gwreiddiol, sy'n rhagflaenu unrhyw drafodiad a weithredwyd.